

Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru

Rhaglen TAR: Bwletin Ymchwil

Rhifyn 5: Chwefror 2023

Croeso i fwletin ymchwil Rhaglen TAR. Diolch am eich adborth ar y bwletinau ymchwil hyn. Parhewch i anfon eich awgrymiadau ar bynciau sydd o ddiddordeb arbennig i chi a'ch lleoliad a byddwn yn cynnwys eitemau perthnasol mewn bwletinau yn y dyfodol.

Hefyd, os ydych chi a/neu eich lleoliad yn rhan o unrhyw ymchwil, byddem yn croesawu'r cyfle i rannu eich gweithgarwch ymchwil a'ch canfyddiadau ar draws y Partneriaeth. Pe dymunech dderbyn rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y bwletinau hyn, cysylltwch ag Alison Glover (alison.glover@open.ac.uk).

Yn y rhifyn hwn

laith
Gymraeg

Y Gymraeg fel ail iaith: Canfyddiadau a phrofiadau myfyrwyr ysgolion uwchradd. Yn ôl data'r grŵp ffocws mae myfyrwyr yn adrodd diffyg cysylltiad rhwng gwersi Cymraeg ysgol a phrofiad o Gymraeg mewn bywyd bob dydd.



Rhaglenni ymyrraeth: i gefnogi plant ifanc ysgol gynradd tawel, swil a/neu bryderus. Manteision i ddatblygiad personol a chymdeithasol plant wrth wella hyder a hunan-barch o fewn a thu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth.



Canfyddiadau o addysg gynhwysol: Mae canfyddiadau arolygu athrawon yng Nghymru yn awgrymu y gallai'r weledigaeth o system addysg gynhwysol gael ei pheryglu os nad oes newid mewn agweddau athrawon.



Recriwtio a chadw athrawon: Ymchwil i recriwtio i Addysg Gychwynnol Athrawon sy'n rhoi cipolwg ar brofiadau unigryw athrawon o liw o fewn system ysgolion sy'n wyn yn bennaf yng Nghymru, ac yn awgrymu'r hyn sydd angen ei newid.



Technoleg fideo a myfyrdod ar wersi: Mae Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg fideo i fyfyrwyr ar wersi.



Canolfan Ymchwil Plant y Brifysgol Agored: ymchwil gyda phlant a phobl ifanc, amdanynt a than eu harweiniad, sy'n ceisio grymuso plant a phobl ifanc fel ymchwilwyr gweithredol.

laith
Gymraeg

Cymraeg fel ail iaith

'Rhan o fod yn Gymry yw bod gennym ein hiaith ein hunain, felly rydyn ni'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol oherwydd ei fod yn rhan o'r diwylliant Cymraeg.'

Mae'r system addysg Gymraeg yn nodwedd bwysig o'r strategaeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Fodd bynnag, mae diffyg adnoddau, staff a sgiliau cymwys i gefnogi hyn, a gorbwyslais ar asesu sy'n effeithio ar addysgeg. Defnyddiodd y papur hwn ddata gan y WISERD Education Multicohort Study a lansiwyd yn 2012; ymwelwyd â 13 ysgol uwchradd a 16 ysgol gynradd. Roedd data meintiol o 1500 o arolygon hunan-gwblhau a data ansoddol gan 36 o fyfyrwyr (6 grŵp ffocws) yn llywio'r canfyddiadau. Roedd myfyrwyr yn credu y byddai cymhelliant ac ymddygiad yn gwella pe bai Cymraeg yn ddewisol yn lle bod yn orfodol. Roedd rhai yn dweud bod diffyg darpariaeth Gymraeg yn tansilio hyder wrth siarad Cymraeg. Adroddwyd bod cynnwys gwersi a oedd yn canolbwyntio ar 'Gymraeg sgysiol' yn hytrach na phwysleisio cymwysterau yn cael eu ffafrio.

Rhys, M. a Smith, K. (2022) "Mae popeth yn troi o amgylch yr arholiad": Beth yw canfyddiadau a phrofiadau myfyrwyr ysgol uwchradd o ddysgu Cymraeg fel ail iaith yng Nghymru?' *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 24(1), doi.org/ 10.16922/wje.24.1.1.



Rhaglenni ymyrraeth

'Er yn cydnabod nad yw bod yn dawel a swil yn briodolledd negyddol, mae angen mwy o amser ar rai plant i fagu hyder o fewn amgylchedd ystafell ddosbarth brysus.'

Mae plant tawel, swil a/neu bryderus sy'n ymddangos yn swil, neu'n lletchwith yn gymdeithasol, ac yn arddangos ymddygiadau pryderus yn debygol o gael eu gweld gan gyfoedion yn blant llai deniadol i chwarae â nhw. Mae'r ymchwil hwn yn archwilio dwy raglen wedi'u targedu, Special Me Time i blant rhwng tair a saith oed (meithrin i flwyddyn 2) a Quality Me Time, ar gyfer plant rhwng saith a naw oed (blwyddyn ysgol 3-4) a gydnabyddir fel rhai tawel, swil a/neu bryderus gan eu hathrawon dosbarth. Cyflwynwyd y sesiynau am awr yr wythnos dros gyfnod o chwe wythnos. Cymerodd 11 ysgol ran yn yr astudiaeth (87 o blant i gyd). Nododd yr ymarferwyr effaith gadarnhaol ar ystod o ymddygiadau gan gynnwys ystyried eraill, ymgysylltu, hunanhyder ac ymddiriedaeth. Roedd galw hefyd am ymestyn y rhaglen i blant sy'n pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Davis, S., Packer, R. a Pierce, A. (2022) Evaluating the effectiveness of supporting young quiet, shy and/ or anxious primary school children in Wales, using two targeted intervention programmes', *Education 3-13*. doi.org/10.1080/03004279.2022.2131455



Canfyddiadau o addysg gynhwysol

'Mae pob myfyriwr, waeth beth fo'u gallu neu eu hanghenion, yn gallu cael mynediad i'r cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i'w hanghenion.'

Er bod ymrwymiad i gynhwysiant mewn polisi, mae ymchwil yn dangos pwysigrwydd agweddau athrawon er mwyn llunio ymarfer addysg gynhwysol. Arolwg o 253 o athrawon sy'n gweithio yng Nghymru ddarparodd y sampl. Roedd y prif themâu i'w dadansoddi yn cynnwys; cynhwysiant i bawb, tu hwnt i'r ddelfryd: gwneud ADY yn rhywbeth 'arall', a chyfyngiadau i gynhwysiant (ymddygiad, hyfforddiant a pharodrwydd, a chyfyngiadau corfforol ac ariannol). Roedd ymddygiad aflonyddgar neu ymosodol yn cael eu hystyried yn heriau sylweddol i'w cynnwys. Dywedodd llawer fod cymhlethdodau anghenion dysgu ychwanegol yn anodd eu bodloni ochr yn ochr â disgyblion prif ffrwd. Heb newid agweddau athrawon, gall y dyhead i greu system addysg gynhwysol fod yn ofer. Mae'n ymddangos bod gan athrawon yng Nghymru ddealltwriaeth o gynhwysiant yn ei ffurf ddelfrydol, ond mae eu canfyddiadau o ymarferoldeb addysg gynhwysol yn gweithredu fel rhwystrau i'r ddelfryd hon.

Knight, C., Clegg, Z., Conn, C., Hutt, M. a Crick, T. (2022) 'Aspiring to include versus implicit 'othering': teachers' perceptions of inclusive education in Wales', *British Journal of Special Education*, doi.org/10.1111 /1467-8578.12394.



Recriwtio a chadw athrawon

'Does dim byd mwy gwych na phlant yn gweld rhywun sy'n edrych fel nhw.'

Roedd 68 o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda chymysgedd o ddysgwyr 14+ ac athrawon/arweinwyr, i gyd o gefndiroedd amrywiol, wedi llywio'r astudiaeth hon. Mae canfyddiadau'n awgrymu bod cyfranogwyr yn gyffredinol yn dangos undod cyffredin neu brofiad o'u heithrio drwy fod yn 'arall', drwy ddefnyddio proses ymchwil naratif, byddai edau straeon cyfranogwyr yn cael eu datod. Ailenwyd cyfweiliadau yn 'sgyrsiau ymchwil' a pharhaodd y rhain hyd at ddwy awr. Mae angen i sgysiau ynghylch hil fod yn drafodaeth fwy canolog ar draws ysgolion, prifysgolion ac mewn addysg athrawon. Mae angen i hyn fod yn ddull o'r brig i lawr gydag ymgysylltu cadarn yn digwydd ymhlith uwch arweinwyr ac mewn ystafelloedd dosbarth. Dylai rhaglenni hyfforddi athrawon mewn prifysgolion sicrhau bod prosesau ymgeisio a chyfweld yn cefnogi myfyrrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a rhaid i ganllawiau gyrfaeoddi wedi'u targedu fod ar gael mewn ysgolion. Yn ogystal, dylai dull recriwtio penodol o ddod o hyd i lywodraethwyr ysgol o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fod ar waith. Dylid rhoi mecanweithiau cadarn ar waith i fentora athrawon lliw a chefnogi dilyniant gyrfa. Mae angen ymchwilio ymhellach i ymwybyddiaeth o ganlyniadau 'trauma hiliol' ac effeithiau emosiynol oherwydd hiliaeth.

Davis, S., Haughton, C., Chapman, S., Okeke, R., Yafele, A., Yu, K. a Smith, M. (2022) The recruitment and retention of teachers of colour in Wales. An ongoing conundrum?, *The Curriculum Journal*, doi.org/ 0.1002/curj.175.



Technoleg fideo a myfyrdod ar wersi

Ar hyn o bryd mae aelodau Partneriaeth AGA y BA yn cwblhau astudiaeth ymchwil a gefnogir gan gyllid Praxis y Brifysgol Agored i ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg fideo i fyfyrion ar wersi. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth ac arolwg ar-lein er mwyn casglu profiadau o ddefnyddio'r dechnoleg fideo, gan gynnwys y manteision a'r heriau. Y tymor hwn, mae cyfweiliadau byr a grwpiau ffocws yn digwydd i gael cipolwg dyfnach ar safbwyntiau gwahanol y dysgwyr a'r ymarferydd/ athro dan hyfforddiant. Caiff canfyddiadau'r ymchwil eu rhannu mewn Bwletinâu Ymchwil diweddarach. Os ydych am gyfrannu at yr ymchwil hwn cysylltwch ag Alison Glover: alison.glover@open.ac.uk.



Canolfan Ymchwil Plant y Brifysgol Agored

Mae'r ganolfan yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain.



Mae adnoddau ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc i ddylunio eu hymchwil eu hunain.



Mae enghreifftiau o waith ymchwil gwreiddiol gan blant a phobl ifanc ar bynciau megis beth yw barn plant am iPads a'u dysgu, a hawliau plant i'w gweld [yma](#).



Mae'r Sefydliad Polisi Addysg yn sefydliad ymchwil annibynnol sy'n ceisio hyrwyddo canlyniadau addysg o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc.



Mae blog hefyd yn edrych ar ystod o faterion addysg.

Yn dilyn Cynhadledd Ymchwil gyntaf lwyddiannus y Bartneriaeth yr haf diwethaf, mae Partneriaeth TAR yn edrych ymlaen at y digwyddiad eleni – dydd Gwener 23^{ain} o Fehefin. Cadwch lygad am fwy o wybodaeth a galwad i gyflwyno yn y gynhadledd a fydd yn cael eu dosbarthu yn fuan.